Oberammergau

Mae Drama'r Dioddefaint yn dyddio'n ôl i addewid a wnaed yn y flwyddyn 1633. Yr adeg honno, rheibiodd y pla drwy'r ardal i gyd, gan gynnwys ardal Oberammergau. Bu farw llawer iawn o bobl y pentref o'r salwch hwn ac ar ôl hyn, addunedodd pobl Oberammergau i bortreadu "Dioddefaint, Marwolaeth ac Atgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist" bob deng mlynedd i ddiolch am eu harbed. O'r foment honno, ni ildiodd yr un person i grafangau'r Pla Du. Ers hynny, unwaith pob degawd, mae pobl Oberammergau wedi llwyfannu drama'n coffau Dioddefaint Iesu. Roedd perfformiad eleni'r unfed perfformiad a deugain.

I ddechrau, am dros ddwy ganrif, perfformiwyd y ddrama yn y fynwent gerllaw eglwys y pentref. Fodd bynnag, yn ystod y 19eg ganrif, roedd torfeydd yn tyrru yno o bob rhan o'r byd a gorfodwyd cymuned y pentref i symud y perfformiad i'r safle lle heddiw mae Theatr Drama'r Dioddefaint. Mae amryw o wahanol resymau dros y dylifiad anferthol o wylwyr - un o'r rhain, mae'n debyg, oedd natur y ddrama - drama firagl sy'n darlunio Dioddefaint Iesu fel drama ond hefyd fel cyfle i fyfyrio'n ddwys.

Rhwng rhai o olygfeydd y ddrama, gosodwyd "Tableaux Vivants" - "Delweddau Byw", gydag actorion, mewn golygfeydd llonydd, yn cyfeirio at ddigwyddiadau'r Hen Destament. Bwriad hyn oedd rhoi cefndir i hyrwyddo dehongliad diwinyddol a myfyrdod. Ar yr un pryd, mae'r gerddoriaeth emosiynol gyffrous yn symud y perfformiad i diroedd oratorio sy'n meddiannu'r gynulleidfa trwy gyfuniad grymus o'r côr, y gerddorfa a'r unawdwyr.

Mae'n hollbwysig i bobl Oberammergau bod y ddrama'n portreadu'r elfennau crefyddol a diwylliannol Iddewig er mwyn osgoi'r posibilrwydd o gysylltu'r ddrama â thueddiadau gwrth-Semitaidd, fel a ddigwyddodd, gwaetha'r modd, yn y gorffennol, (gan achosi poen, yn naturiol) i'r Almaenwyr sensitif. Ar yr adeg hon yn eu hanes, roedd yr Iddewon dan ormes gwleidyddol a chymdeithasol y Rhufeiniaid. O'r dechrau, felly, mae milwyr Rhufeinig i'w gweld ar y llwyfan a gellir teimlo'r tensiwn dwys. Mae Peilat yn ymddangos, cyn i Iesu fod ar brawf, yn rhoi pwysau ar yr Uwch Offeiriad, Caiaffas, i gadw trefn o ran gweithgareddau crefyddol. Yn ystod y Prawf, mae Peilat yn gwawdio'n sinigaidd ddiffyg grym yr Iesu ac yn ddirmygus iawn o'r grefydd Iddewig a'r Uwch Gyngor, awdurdod uchaf y grefydd Iddewig.

Yn y ddrama, dehonglir Jiwdas fel ffigwr trasig. Fe'i twyllwyd gan Caiaffas, yr Archoffeiriad i gredu mai trefnu cyfarfod i'r Iesu gyda'r Uwch Gyngor oedd amcan ei weithred o fradychu - nid marwolaeth Iesu. Mae'n edifarhau ac yn taflu'r arian a dderbyniodd i mewn i'r deml. Cerddodd i ffwrdd a chrogi'i hun.

Cyflwynwyd yr olygfa olaf yn wahanol eleni. Gwelir Iesu'n cael ei osod i orwedd ond ni welir y bedd. Byr iawn yw ymddangosiad yr Arglwydd Atgyfodedig - er mwyn pwysleisio unigrywiaeth y

digwyddiad; mae'r gerddoriaeth, y goleuo ac ymddangosiad byr Iesu'n tanlinellu'n ogoneddus gymaint o ddirgelwch yw'r ffydd sydd wedi goroesi am dros ddwy fil o flynyddoedd ac a gyflwynwyd mor fyw ar y llwyfan (a'i ddehongli'n ddwys) gan frodorion annwyl ac urddasol Oberammergau am dros bedair canrif.

Trigolion Oberammergau'n unig sydd â hawl i gymryd rhan yn y ddrama a bydd rhai'n symud yn ôl ac ymlaen rhwng eu gorchwylion bob dydd a'u hymddangosiadau ar y llwyfan. Mae'n dasg anferthol i lwyfannu cynhyrchiad o'r fath gan fod rhyw 2,000 o bobl yn rhan o'r perfformiad o fis Mai i fis Hydref - actorion, cantorion, offerynwyr, crefftwyr a gwneuthurwyr dillad ar gyfer pob un oedd yn cymryd rhan. Roedd dwy ran i'r perfformiad: 2.30 i 5.30 ac 8.00 tan 11.00 gan gyrraedd yr uchafbwynt gyda'r croeshoeliad ac ymddangosiad y Crist ar ôl yr Atgyfodiad.

Rhun Jones

Noder: Ni chaniateir ffotograffiaeth o unrhyw fath yn ystod y perfformiadau.
Lluniau wal o'r perfformiad yw'r rhain a dynnwyd gan Awdurdodau'r Theatr ac sydd i'w gweld ar furiau yn ymyl y theatr.